LANEq347

# Gyrru ceffylau harnais unigol ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu gyrru ceffylau harnais unigol at ddibenion ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi. Mae'n cynnwys gallu gyrru ceffylau harnais unigol yn gywir ac yn effeithiol mewn ardal gaeëdig, ar lwybrau oddi ar y ffordd a ffyrdd ar gyfer ymarfer cyffredinol fel mater o drefn.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis y ceffyl, y cerbyd a'r harnais sydd yn addas ar gyfer y defnydd
3. cynnal gwiriadau diogelwch cyn gyrru fel mater o drefn
4. gyrru ceffylau harnais unigol ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi
5. gyrru gan ddefnyddio dull cydnabyddedig o drin ffrwyn
6. defnyddio'r chwip gyrru'n gywir ac yn briodol
7. cynnal cyfres o symudiadau gyrru yn gywir mewn ardal gaeëdig at ddibenion hyfforddiant, hyfforddi neu ymarfer
8. gyrru ceffylau ar fathau gwahanol o dir
9. aros a symud i ffwrdd yn llyfn ar ôl aros
10. cyfathrebu'n effeithiol gyda'r gwas a'r ceffyl
11. gweithredu'n briodol i gadw rheolaeth dros y ceffyl mewn ystod o sefyllfaoedd
12. monitro ymddygiad y ceffyl a gyrru mewn ffordd sy'n lleihau straen
13. dilyn deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol wrth yrru
14. monitro a chynnal eich diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn gyrru ceffylau harnais unigol ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi
3. sut i ddewis yr harnais a'r cerbydau sy'n cael eu tynnu gan gerbydau ar gyfer y ceffyl a'r defnydd a fwriedir
4. sut i gynnal gwiriadau ffitrwydd ac addasrwydd cyn gyrru ar y ceffyl fel mater o drefn
5. sut i gynnal gwiriadau addasrwydd a diogelwch cyn gyrru ar yr harnais a'r cerbyd
6. sut i adnabod arwyddion straen a salwch yn y ceffyl a sut i ddileu neu leihau'r pethau hyn tra'n gyrru
7. y technegau ffrwyno ac ymdrin â chwip cywir
8. sut i gadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n gyrru ac yn llonydd
9. sut i gynnal cyfres o symudiadau gyrru mewn ardal gaeëdig at ddibenion hyfforddiant, hyfforddi neu ymarfer
10. sut i yrru harnais unigol ar fathau gwahanol o dir
11. sut i yrru gan ystyried a chyfathrebu'n effeithiol, gyda defnyddwyr eraill y ffordd
12. sut i agosáu at a thrin cyffyrdd, cylchfannau, ardaloedd croesi wedi eu rheoli, cerbydau llonydd ac eitemau ar ochr y ffordd yn gywir
13. sut i gadw rheolaeth dros y ceffyl gyrru mewn ystod o sefyllfaoedd
14. sut i gyfathrebu gyda'r Gwas Ceffyl Harnais a gwneud defnydd effeithiol ohono
15. sut i adnabod arwyddion o draul a niwed i'r harnais neu'r cerbyd tra'n gyrru, a pha gamau i'w cymryd
16. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol
17. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq347

Gyrru ceffylau harnais unigol ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq347 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; harnais; gyrru |